

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R CABINET DROS TAI

**DYDD** Gwener, 12 Tachwedd 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd L.D. Evans (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

R.M. Davies, Rheolwr Strategol Darparu Tai;

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10.00yb - 10.40yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 14EG MAI 2021**

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 14 Mai, 2021 yn gofnod cywir.

**3. CREU POLISI GOSODIADAU LLEOL AR GYFER GOLWG Y CAPEL, DATBLYGIAD NEWYDD POBL YN NHŶ-CROES**

Rhoddodd Aelod o'r Cabinet dros Dai adroddiad ar gynigion i fabwysiadu Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer datblygiad tai newydd Pobl yng Ngolwg y Capel, Tycroes. Byddai'r Polisi hwn sicrhau bod cymuned gynaliadwy yn cael ei chreu lle byddai pobl yn falch o fyw. Byddai'r Polisi hwn yn berthnasol i ddechrau wrth osod y cartrefi newydd i'w rhentu yn Nhŷ-croes ac yn parhau ar waith am 6 mis ar ôl y gosod diwethaf.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer y cartrefi newydd yng Ngolwg y Capel, datblygiad tai newydd Pobl yn Nhŷ-croes yn amodol ar drosglwyddiadau ar gyfer pob math o dŷ gan gynnwys aelwydydd y mae eu tai cymdeithasol presennol yn orlawn a'r rhai sy'n tanfeddiannu eu tai cymdeithasol presennol.

**4. CREU POLISI GOSODIADAU LLEOL AR GYFER MAES Y GWENYN, DATBLYGIAD NEWYDD POBL YN CROSS HANDS**

Rhoddodd Aelod o'r Cabinet dros Dai adroddiad ar gynigion i fabwysiadu Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer datblygiad tai newydd gan Grŵp Tai Pobl yn Cross Hands - Maes y Gwenyn. Byddai'r Polisi hwn yn sicrhau bod cymuned gynaliadwy yn cael ei chreu lle byddai pobl yn falch o fyw. Byddai'r Polisi hwn yn berthnasol i ddechrau wrth osod y cartrefi newydd i'w rhentu yn Nhŷ-croes ac yn parhau ar waith am 6 mis ar ôl y gosod diwethaf.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet mai Llannon oedd y ward leol ar gyfer y datblygiad hwn mewn gwirionedd, nid Gorslas fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac yr ymgynghorwyd ag aelodau ward Llannon, y Cynghorwyr Emlyn Dole a Dot Jones. Roedd y Cyngorydd Aled Vaughan Owen a'r Cyngorydd Darren Price, aelodau o ward Gorslas, wedi cael gwybod am y gwall.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer y cartrefi newydd ym Maes y Gwenyn, datblygiad tai newydd Pobl yn Cross Hands yn amodol ar drosglwyddiadau ar gyfer pob math o dŷ gan gynnwys aelwydydd y mae eu tai cymdeithasol presennol yn orlawn a'r rhai sy'n tanfeddiannu eu tai cymdeithasol presennol.

---

**AELOD O'R CABINET**

---

**DYDDIAD**